



## NEWS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG

*This is a bilingual message, please scroll down for Welsh  
Mae hon yn neges ddwyieithog, gyda'r Gymraeg isod*

**For immediate Release: Tuesday 12<sup>th</sup> December 2023**

**\*\*\*News release and images below for use by media. Photo captions at the end of release \*\*\***

# **WILDLIFE EXPERT AND TV PRESENTER HONOURS FIN-TASTIC WELSH SHARK PROJECT**

**Award winning naturalist and wildlife TV presenter Iolo Williams has honoured an inspirational project which aims to safeguard and increase people's understanding of rare sharks living off the Welsh coast.**

Wildlife expert Iolo visited Pwllheli Marina in North Wales today (**Tuesday December 12<sup>th</sup>**) to officially crown Project SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) as the Wales Project of the Year in the 2023 National Lottery Awards.

Established in 2021, Project SIARC is a multi-partner collaboration led by ZSL (Zoological Society of London) and Natural Resources Wales (NRW), it aims to safeguard rare species of sharks, skates and rays (a group known as elasmobranchs) off the Welsh coast whilst cultivating a new appreciation for the underwater environment in Wales.

The project beat off stiff competition from 3,780 organisations to reach the public voting stage in this year's National Lottery Awards – the annual search for the inspirational people and organisations across the UK who have done extraordinary things with National Lottery funding. Project SIARC emerged victorious as the Wales winner following the vote.

The coastal waters of Wales are teeming with life and home to a diverse range of marine species, including 27 species of shark, skate and ray. This includes four species listed as Critically Endangered on the IUCN Red List of Threatened Species (the highest category before extinct in the wild): angelshark, tope, flapper skate and blue skate.

Project SIARC is doing all it can to make things better, and, with the support from The National Lottery Heritage Fund, the project is designed to improve understanding of the rare sharks, skates and rays and also enable a wider range of people to discover the incredible marine environment here in Wales. Other funders include Welsh Government, Nature Networks Fund and On the Edge.

Project SIARC covers a vast area and operates throughout Wales, but the research and work alongside local communities is focussed at two Special Areas of Conservation (SACs): 'Pen Llŷn a'r Sarnau' in North Wales and 'Carmarthen Bay and Estuaries' in South Wales. Research has included environmental DNA (eDNA) surveys, working with oceanographers at Bangor University to learn more about which shark, skate and ray species are present within the SACs.



## NEWS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG

With the help of fishers, communities, researchers and citizen scientists across Wales and the UK, the project is filling in critical data gaps for six species of shark, skate and ray.

Bringing the innovative programme out into the community, Project SIARC is engaging with and inspiring a new generation of marine conservationists through interactive primary school sessions, including 'Meet the Scientist' sessions and learning how to 3D print shark models with Swansea University. Several bilingual resources have been developed for schoolchildren, including an eBook to explore the heritage of angelsharks in Wales. More than 3,000 members of the public and 600 schoolchildren have engaged with the project's work to date.

Over the last two years, 66 fish species have been filmed by Baited Remote Underwater Video Systems (BRUVS). To gather the underwater footage, Project SIARC scientists work with local fishers to strategically place these BRUVS, manufactured by Blue Abacus.

So far, around 200 hours of footage has been logged and uploaded onto ZSL's [Instant Wild website](#), helping to build a picture of the diversity of species and providing people from across the UK a unique peek at life under the waters of the stunning Welsh coastline.

As well as people getting involved online, hundreds of volunteers in North Wales have also been combing the Welsh coastline with North Wales Wildlife Trust to collect valuable records of shark and skate eggcases through the Shark Trust's Great Eggcase Hunt citizen science project. The work aims to gain a sense of which species are breeding out at sea. Project SIARC is committed to creating more equitable and inclusive opportunities for all, and recently has expanded to work with project partners Minorities in Shark Sciences to help further this work.

**Iolo Williams**, Vice President of the Wildlife Trusts, visited Project SIARC in Pwllheli today to learn more about their amazing work and present them with their iconic trophy.

He said: "Funding raised by National Lottery players for good causes has played an important part in the success of this project. I am honoured to present them with this well-deserved award.

Our coastal waters are a vitally important part of our ecosystem so it's fantastic to see initiatives like this playing such a crucial role in safeguarding these rare species and inspiring and educating people of all ages about the various unique creatures which live off the shores of Wales. It's absolutely vital for the future survival of our wildlife and our habitats because only by educating, connecting and re-connecting people with nature, can we encourage better stewardship of our seas and reverse the decline in biodiversity."

**ZSL's Joanna Barker, Project SIARC Lead, said:** "To win this National Lottery Award shows the importance of incorporating local community knowledge and voices into marine conservation in Wales. I would like to thank all who voted for us. It's fantastic recognition for everyone who has committed their time and effort to help safeguard these species and raise awareness of a vital part of Wales's natural heritage. National Lottery funding has been key to the success of this project; we're immensely grateful for the support we have received from all our funders and partners."

**Natural Resources Wales & ZSL's Project SIARC Technical Specialist, Jake Davies**, grew up on the Llŷn Peninsula and has been working side by side with fishers to find the best spots to set up the underwater cameras which capture all the footage.



## NEWS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG

Jake said: "We are a team of dedicated people who find this work really rewarding and it's been an absolute dream to work with wonderful communities, volunteers, fishers and such an incredible group of partners across Wales since we launched.

To win this award is amazing and I'm delighted to be able to play a part in bringing this underwater world into people's homes, schools and enable communities to be more involved in their local marine environment."

Thanks to National Lottery players, more than £30 million goes to good causes across the UK every week, which in turn helps initiatives like Project SIARC continue to carry out incredible work in their communities.

**Anyone currently living or residing in Wales can get involved with Project SIARC by visiting [www.projectsarc.com](http://www.projectsarc.com) or following the work on Facebook, [Instagram](#) or [Twitter](#).**

**For further information please contact:** For more information, please contact: Oswyn Hughes on 07976 324 179 or email [oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk](mailto:oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk) [Instagram](#) or [Twitter](#).

**For further information please contact:** For more information, please contact: Oswyn Hughes on 07976 324 179 or email [oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk](mailto:oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk)

### **PHOTO CAPTION:**

***IOLO WILLIAMS HONOURS PROJECT SIARC WITH MAJOR AWARD:*** Naturalist and Wildlife TV Presenter , Iolo Williams, honours Project SIARC as the 2023 Wales Project of the Year in the National Lottery Awards

### **FIN-TASTIC FACTS AND SEA-CRETS:**

- Since 2022 169 Baited Remote Underwater Video Systems (BRUVS) have been deployed within the Pen Llŷn a'r Sarnau Special Area of Conservation (PLAS SAC) resulting in over 200 hours of footage.
- 66 species including 5 from the shark, skate and ray family have been recorded
- Over 9,000 users have engaged with the online citizen science Instant Wild Project SIARC platform, where the images and footage are uploaded.
- Project SIARC used environmental DNA (eDNA) methods over a 12 month period to detect the presence of species by analysing water samples gathered from the two SACs in north and south Wales. 10 different species of shark, skate and ray were detected in the PLAS SAC and eight different species in the CBAE SAC.
- 350 volunteers attended 36 events organised to search for eggcases across beaches and 7,003 eggcases have been recorded to Shark Trust's Great Eggcase Hunt (GEH).
- 19 schools from across Wales have had 'meet the scientist' sessions so far including schools in Carmarthenshire, Pwllheli, Bridgend, Fishguard, Haverford West, Wrexham and Conwy.
- 400 pupils from 10 schools in Carmarthenshire showcased their 3D printed angelshark displays at the National Botanic Gardens of Wales (NBGW).

### **NOTES TO EDITORS:**



## NEWS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG

- The National Lottery generates over £30 million each week for National Lottery-funded projects. In total, £47 billion has now been raised and more than 670,000 individual grants have been made across the UK - the equivalent of around 240 lottery grants in every UK postcode district.
- Project SIARC has received a £390,000 grant from the Welsh Government's Nature Networks Fund, which was delivered by the National Lottery Heritage Fund, as well as a £180,997 National Lottery grant from National Lottery Heritage Fund and a total of £115,000 from On the Edge.
- Over the past 5 years, £2million of National Lottery funding has created 45 biodiversity projects looking to create long-term environmental change across the UK.
- For more information about projects funded by The National Lottery or The National Lottery Awards visit [www.lotterygoodcauses.org.uk](http://www.lotterygoodcauses.org.uk) and follow the campaign on Twitter: @LottoGoodCauses #NLAwards

-ENDS-

**I'w Ryddhau ar Unwaith: Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2023**

**\*\*\* Mae'r datganiad i'r wasg a'r delweddau isod i'w defnyddio gan y cyfryngau. Mae capsionau lluniau ar ddiwedd y datganiad \*\*\***

## **ARBENIGWR BYWYD GWYLLT A CHYFLWYNYDD TELEDU YN ANRHYDEDDU PROSIECT SIARCOD GWYCH O GYMRU**

Mae Iolo Williams, y naturiaethwr sydd wedi ennill gwobrau a'r cyflwynydd bywyd gwyllt ar y Teledu, wedi anrhydeddu prosiect ysbrydoledig sy'n anelu tuag at ddiogelu a chynyddu dealltwriaeth pobl am siarcod prin sy'n byw oddi ar arfordir Cymru.

Ymwelodd Iolo, yr arbenigwr Bywyd Gwyllt â Marina Pwllheli yng ngogledd Cymru heddiw (**Dydd Mawrth 12 Rhagfyr**) i goroni Prosiect SIARC (*Sharks Inspiring Action and Research with Communities*) yn swyddogol fel Prosiect y Flwyddyn Cymru yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol 2023.

Wedi'i sefydlu yn 2021, cydweithrediad rhwng partneriaid lluosog yw Prosiect SIARC dan arweiniad Cymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL) a Chyfoeth Naturiol Cymru, a'i nod yw diogelu rhywogaethau prin o siarcod a morgathod (a adwaenir fel elasmobranciaid) oddi ar arfordir Cymru tra'n meithrin gwerthfawrogiad newydd at yr amgylchedd tanddwr yng Nghymru.

Roedd y prosiect wedi trechu cystadleuaeth lem oddi wrth 3,780 o sefydliadau i gyrraedd y cam pleidleisio cyhoeddus yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol eleni - yr ymgyrch flynyddol i ganfod pobl a sefydliadau ysbrydoledig ar draws y DU sydd wedi gwneud pethau anhygoel gydag arian y Loteri Genedlaethol. Daeth Prosiect SIARC i'r amlwg yn fuddugol fel enillydd Cymru wedi'r bleidlais.

Mae'r amgylchedd morol ar hyd arfordir Cymru yn llawn bywyd ac yn gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau morol, gan gynnwys 27 rhywogaeth o siarcod a morgathod. Mae hyn yn cynnwys pedair rhywogaeth a restrir fel bod mewn Perygl Difrifol ar Restr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Rywogaethau Natur (IUCN) o Rywogaethau Dan Fygythiad (y categori uchaf cyn bod yn ddiflanedig yn y gwyllt): maelgi, morgi glas, morgath drwynfain a'r forgath las.

Mae Prosiect SIARC yn gwneud y cyfan y gall i wneud pethau hyd yn oed gwell, a gyda cefnogaeth oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bwriad y prosiect yw gwella dealltwriaeth am siarcod a morgathod prin, a galluogi ystod ehangach o bobl i ddarganfod yr amgylchedd morol anhygoel yma yng Nghymru. Mae noddwyr eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y Gronfa Rhwydweithiau Natur ac *On the Edge*.

Mae Prosiect SIARC yn gorchuddio ardal eang ac yn gweithredu led led Cymru, ond mae'r ymchwil a'r gwaith a gynhelir ochr yn ochr â chymunedau lleol yn canolbwyntio ar ddwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA): 'Pen Llŷn a'r Sarnau' yng ngogledd Cymru a 'Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd' yn ne Cymru. Mae'r ymchwil wedi cynnwys arolygon DNA amgylcheddol (eDNA), gan weithio gydag eiconegwyr ym Mhrifysgol Bangor i ddysgu mwy am y rhywogaethau siarcod a morgathod sy'n bresennol o fewn yr ACAau.

## NEWS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG

Gyda help pysgotwyr, cymunedau, ymchwilwyr a gwyddonwyr dinesig led led Cymru a'r DU, mae'r prosiect yn llenwi'r bylchau data allweddol ar gyfer chwe rhywogaeth o siarcod a morgathod.

Gan gyflwyno'r rhaglen ddyfeisgar i'r gymuned, mae Prosiect SIARC yn ysbrydoli ac yn ymgysylltu gyda chenedlaeth newydd o gadwraethwyr morol trwy sesiynau rhyngweithiol i ysgolion cynradd, gan gynnwys sesiynau 'Cwrdd â'r Gwyddonwyr' a dysgu sut i wneud argraffiad 3D o fodolau siarcod gyda Phrifysgol Abertawe. Mae nifer o adnoddau dwyieithog i blant ysgol wedi cael eu datblygu, gan gynnwys eLyfr i archwilio'r maelgwn yng Nghymru. Mae mwy na 3,000 o aelodau'r cyhoedd a 600 o blant ysgol wedi ymgysylltu gyda gwaith y prosiect hyd yn hyn.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae 66 o rywogaethau pysgod wedi cael eu ffilmio gan Systemau Fideo o Bell gydag Abwyd (BRUVS). Er mwyn casglu'r ffilmiau tanddwr, mae gwyddonwyr Prosiect SIARC wedi gweithio gyda physgotwyr lleol i osod y systemau BRUVS hyn, sydd wedi'u gwneuthuro gan *Blue Abacus*, yn strategol.

Hyd yn hyn, mae tua 200 awr o ffilmiau wedi cael eu logio a'u huwchlwytho ar [wefan Instant Wild](#) y ZSL, gan helpu i adeiladu darlun o'r amrywiaeth o rywogaethau ar draws y DU gyda chipolwg unigryw ar fywyd o dan dyfroedd arfordir godidog Cymru.

Ynghyd ag annog pobl i gymryd rhan ar-lein, mae cannoedd o wirfoddolwyr yng ngogledd Cymru wedi bod yn cribo arfordir Cymru gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru i gasglu cofnodion gwerthfawr o gasys wyau'r siarcod a morgathod trwy brosiect gwyddoniaeth i ddinasyddion gyda Helfa Casys Wyau'r Ymddiriedolaeth Siarcod. Nod y gwaith yw ennill syniad o ba rywogaethau sy'n bridio allan yn y môr. Mae Prosiect SIARC yn ymroddedig tuag at greu cyfleoedd mwy cydradd a chynhwysol i bawb ac wedi estyn y gwaith yn ddiweddar i weithio gyda phartneriaid o fewn y prosiect sef *Minorities in Shark Sciences* i helpu gwneud cynnydd pellach gyda'r gwaith hwn.

Roedd **Iolo Williams**, Is-lywydd yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, wedi ymweld â Phrosiect SIARC heddiw ym Mhwillheli i ddysgu mwy am eu gwaith anhygoel a chyflwyno eu tlws eiconig iddynt.

Dywedodd: "Mae'r arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da wedi chwarae rhan bwysig yn llwyddiant y prosiect. Mae'n anrhydedd i mi gyflwyno'r wobwr llwyr haeddiannol hon iddynt.

Mae ein dyfroedd morol yn rhan allweddol bwysig o'n hecosystem felly mae'n wych gweld mentrau fel hyn yn chwarae rôl mor hanfodol wrth ddiogelu'r rhywogaethau prin hyn gan ysbrydoli ac addysgu pobl o bob oed am y creaduriaid unigryw amrywiol sy'n byw oddi ar arfordiroedd Cymru. Mae'n gwbl allweddol i oroesiad ein bywyd gwyllt a'n cynefinoedd yn y dyfodol oherwydd dim ond trwy addysgu, cysylltu ac ail-gysylltu pobl gyda natur y gallwn annog stiwardiaeth well o'n moroedd a gwyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth."

**Dywedodd Joanna Barker o ZSL, sef Arweinydd Prosiect SIARC:** "Mae ennill y Wobr hon oddi wrth y Loteri Genedlaethol yn dangos pwysigrwydd ymgorffori gwybodaeth a lleisiau'r gymuned leol o fewn cadwraeth forol yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i bawb a bleidleisiodd drosom ni. Mae'n gydnabyddiaeth wych i bawb sydd wedi ymrwymo eu hamser ac ymdrech i ddiogelu'r rhywogaethau hyn a chodi ymwybyddiaeth am ran

## NEWS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG

allweddol o dreftadaeth naturiol Cymru. Mae arian y Loteri Genedlaethol wedi bod yn allweddol i lwyddiant y prosiect hwn; rydym yn eithriadol o ddiolchgar am y gefnogaeth rydym wedi'i derbyn oddi wrth ein holl noddwyr a phartneriaid."

Cafodd **Jake Davies o Gyfoeth Naturiol Cymru & ZSL sy'n Arbenigwr Technegol Prosiect SIARC**, ei fagu ar Benrhyn Llŷn ac mae wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â physgotwyr i ganfod y manau gorau i sefydlu camerâu tanddwr sy'n dal yr holl ffilmiau.

Dyweddodd Jake: "Rydym yn dîm o bobl ymroddedig sy'n gweld y gwaith yma'n wirioneddol werth chweil ac mae wedi bod yn bleser pur i weithio gyda chymunedau, gwirfoddolwyr a physgotwyr gwych ynghyd â grŵp anhygoel o bartneriaid led led Cymru ers i ni gael ein lansio.

Mae ennill y wobwr hon yn anhygoel ac rwyf wrth fy modd i allu chwarae rhan wrth ddod â'r byd tanddwr hwn i mewn i gartrefi pobl ac ysgolion, gan alluogi cymunedau i gymryd rhan mwy yn eu hamgylchedd morol lleol."

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae mwy na £30 miliwn yn mynd tuag at achosion da led led y DU bob wythnos, sydd yn ei dro yn helpu mentrau megis Prosiect SIARC i barhau i gynnal gwaith anhygoel yn eu cymunedau.

**Gall unrhyw un sy'n byw neu'n preswyllo yng Nghymru ar hyn o bryd gymryd rhan gyda Phrosiect SIARC trwy edrych ar [www.projectsarc.com](http://www.projectsarc.com) neu ddilyn eu gwaith ar Facebook, [Instagram](#) neu [Trydar](#).**

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â/ag:** Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Oswyn Hughes ar 07976 324 179 neu anfonwch e-bost at [oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk](mailto:oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk) [Instagram](#) neu [Trydar](#).

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â/ag:** Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Oswyn Hughes ar 07976 324 179 neu anfonwch e-bost at [oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk](mailto:oswyn.hughes@lotterygoodcauses.org.uk)

### **CAPSIWN LLUN:**

***IOLO WILLIAMS YN ANRHYDEDDU PROSIECT SIARC GYDA GWOBWR O BWYS:*** Y Naturiaethwr a Chyflwynydd Bywyd Gwyllt ar y Teledu, Iolo Williams, yn anrhydeddu Prosiect SIARC fel Prosiect y Flwyddyn Cymru 2023 yng Ngwobrau'r Loteri Genedlaethol.

### **FFEITHIAU A CHYFRINACHAU MOROL ANHYGOEL:**

- Ers 2022, mae 169 o Systemau Fideo o Bell gydag Abwyd (BRUVS) wedi cael eu defnyddio o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS SAC) gan arwain at dros 200 awr o ffilm.
- Mae 66 o rywogaethau gan gynnwys 5 o deulu'r siarcod a morgathod wedi cael ei recordio
- Mae dros 9,000 o ddefnyddwyr wedi ymgysylltu gyda llwyfan gwyddoniaeth *Instant Wild* ar-lein i ddinasyddion gan Brosiect SIARC, lle mae delweddau a ffilmiau'n cael eu huwchlwytho.
- Roedd Prosiect SIARC wedi defnyddio dulliau DNA amgylcheddol (eDNA) dros gyfnod o 12 mis i ganfod presenoldeb rhywogaethau trwy ddadansoddi samplau dŵr a gasglwyd o'r ddwy ACAau

## NEWS RELEASE / DATGANIAD I'R WASG

yng ngogledd a de Cymru. Canfuwyd 10 rhywogaeth wahanol o siarcod a morgathod yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS SAC) ac wyth rhywogaeth wahanol yn ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (CBAE SAC).

- Mynychodd 350 o wirfoddolwyr 36 o ddigwyddiadau wedi'u trefnu i chwilio am gasys wyau ar draws traethau a chafodd 7,003 o gasys wyau wedi cofnodi yn Helfa Casys Wyau Fawr yr Ymddiriedolaeth Siarcod (GEH).
- Mae 19 o ysgolion led led Cymru wedi cael sesiynau 'cwrdd â'r gwyddonwyr' hyd yn hyd gan gynnwys ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, Pwllheli, Pen-y-bont ar Ogwr, Abergwaun, Hwlfordd, Wrecsam a Chonwy.
- Mae 400 o ddisgyblion o 10 ysgol yn Sir Gaerfyrddin wedi arddangos eu harddangosfeydd maelgwn trwy argraffiadau 3D yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (NBGW).

### **NODIADAU I OLYGYDDION:**

- Mae'r Loteri Genedlaethol yn cynhyrchu dros £30 miliwn bob wythnos ar gyfer prosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol. Mae cyfanswm o £47 biliwn wedi cael ei godi erbyn hyn a mwy na 670,000 o grantiau unigol wedi cael eu gwobrwyo led led y DU – sy'n cyfateb i oddeutu 240 o grantiau loteri ym mhob rhanbarth cod post o'r DU.
- Mae Prosiect SIARC wedi derbyn grant o £390,000 oddi wrth Gronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ynghyd â grant y Loteri Genedlaethol o £180,997 oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyfanswm o £115,000 oddi wrth *On the Edge*.
- Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae £2 miliwn o arian y Loteri Genedlaethol wedi creu 45 o brosiectau bioamrywiaeth sy'n edrych i greu newid amgylcheddol tymor hir ar draws y DU.
- Am ragor o wybodaeth am brosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol neu Wobrau'r Loteri Genedlaethol, edrychwch ar [www.lotterygoodcauses.org.uk](http://www.lotterygoodcauses.org.uk) a dilyn yr ymgyrch ar Trydar: @LottoGoodCauses #NLAwards

**-DIWEDD -**